



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

**LLYFRYN O DDIWEDDARIADAU O'R SET
DDATA GENEDLAETHOL O DOMENNI
GLO NAS DEFNYDDIR**

GWANWYN 2025

Cynnwys

Y Llyfryn hwn	3
Tabl o Newidiadau	4
Map o Gaerffili	5
Map o Ferthyr Tudful	6
Map o Ronda Cynon Taf.....	7

Llyfryn o Ddiweddariadau o'r Set Ddata Genedlaethol o Domenni Glo nas Defnyddir

GWANWYN 2025

Y Llyfryn hwn

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio archwilio tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru yn rheolaidd. Mae archwiliadau yn helpu i fonitro statws tomenni nas defnyddir a nodi unrhyw waith cynnal a chadw y gall fod angen ei wneud. O bryd i'w gilydd, wrth ymweld â thomenni glo nas defnyddir, bydd arolygwyr yn ein hysbysu am ffactorau sy'n golygu bod angen diweddaru ein cofnodion. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein gwybodaeth yn gyfredol ac yn gywir. .

Mae'r llyfryn hwn yn crynhoi'r newidiadau a gofnodwyd gan yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio ers i'r diweddariad diwethaf o ddata gael ei gyhoeddi. Mae'n darparu mapiau a gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar domenni glo nas defnyddir lle:

- mae sgôr categori tomen wedi newid
- cafodd diwygiad i ffin tomen ei nodi
- cofnodwyd tomen lo nas defnyddir am y tro cyntaf
- nad yw tomen lo nas defnyddir yno mwyach neu lle mae tomen lo nas defnyddir wedi'i chynnwys yn ein cofnodion yn anghywir

Caiff y llyfryn hwn ei gyhoeddi ar yr un pryd ag y caiff data a gwybodaeth bresennol am domenni glo nas defnyddir yng Nghymru eu diweddaru gan Lywodraeth Cymru ar ei [gwefan](#).

Caiff fersiwn ddiwygiedig o'r llyfryn o Ddiweddariadau ei chyhoeddi ddwywaith y flwyddyn er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a nodir gan arolygwyr ar ddiwedd y rhaglen flynyddol o archwiliadau o domenni Categori C a D a gynhelir yn ystod y Gaeaf (a gyhoeddir yn Niweddariad y Gwanwyn) ac ar ddiwedd y rhaglen flynyddol o archwiliadau o domenni Categori D a gynhelir yn ystod yr Haf (a gyhoeddir yn Niweddariad yr Hydref).

Bydd y llyfryn hwn hefyd yn cynnwys newidiadau sy'n deillio o raglen o archwiliadau ar gyfer pob tomen Categori A. Bydd y rhaglen honno yn dechrau ym mis Ebrill 2025 a bydd yn cymryd tua dwy flynedd i'w chwblhau. Dyma'r tro cyntaf bydd y rhan fwyaf o domenni Categori A wedi'u harchwilio gan yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio ar ran Llywodraeth Cymru.


Archwiliwyd pob tomen Categori B yn 2024.

Tabl o Newidiadau

Mae'r tabl hwn yn rhoi manylion ychwanegol am y newidiadau sydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r diweddariad o'r Set Ddata Genedlaethol o Domenni Glo Nas Defnyddir. Dengys y Rhif Adnabod Unigryw ar gyfer pob tomen; yr Awdurdod Lleol lle y ceir y domen; natur y newid a gofnodwyd; sgôr Categori bresennol y tomenni a sgôr flaenorol y tomenni (ni fydd gan domenni sydd newydd eu canfod sgôr flaenorol); a chyfeirnod grid canol y domen yn seiliedig ar system cyfeirnodau Grid Cenedlaethol Prydain.

UID	Awdurdod Lleol	Math o Newid	Categori	Categori Blaenorol	X	Y
T34994	Caerffili	Diwygio Ffin	B	B	314814	203427
T25046	Caerffili	Diwygio Ffin	A	A	311736	195518
T36885	Merthyr Tudful	Diwygio Ffin	D	D	306390	204271
T43455	Rhondda Cynon Taf	Diwygio Ffin	C	C	292508	200586

Caerffili



Allwedd

- Math o Newid
- ⊗ Symudwyd Tomen (0)
 - ⊕ Tomen Newydd (0)
 - △ Newid Categori (0)
 - Diweddariad i Ffin (2)
 - Newid Categori a Diweddariad i Ffin (0)

Categori Tomen


- D
- C
- B
- A
- R

Cartograffeg gan Diogelwch Tomenni Glo


Ni chaniateir ichi gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hyn i drydydd partïon ar unrhyw ffurf



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Merthyr Tudful



Allwedd

- Math o Newid
- ⊗ Symudwyd Tomen (0)
 - + Tomen Newydd (0)
 - △ Newid Categori (0)
 - Diweddariad i Ffin (1)
 - Newid Categori a Diweddariad i Ffin (0)

Categori Tomen

- D
- C
- B
- A
- R


Cartograffeg gan Diogelwch Tomenni Glo

Ni chaniateir ichi gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hyn i drydydd partïon ar unrhyw ffurf



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhondda Cynon Taf



Allwedd

- Math o Newid
- ⊗ Symudwyd Tomen (0)
 - + Tomen Newydd (0)
 - △ Newid Categori (0)
 - Diweddariad i Ffin (1)
 - Newid Categori a Diweddariad i Ffin (0)

Categori Tomen

- D
- C
- B
- A
- R

Cartograffeg gan Diogelwch Tomenni Glo

Ni chaniateir ichi gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hyn i drydydd partïon ar unrhyw ffurf



Llywodraeth Cymru
Welsh Government